

Nifer y busnesau tir
ar sydd wedi cofrestru:

734

Nifer y busnesau garddwriaeth
sydd wedi cofrestru:

306

Rhwydwaith Arddangos

Pantyderi: Meincnodi Maetholion Grawn YEN

Mae'r Rhwydwaith Gwella Cynnyrch neu YEN yn cysylltu sefydliadau amaethyddol a ffermwyr sy'n ymdrechu i wella cynnyrch cynydau gyda'r nod o gau'r bwlch rhwng y cynnyrch presennol a'r potensial o ran cynnyrch. Mi wnaeth profi grawn o dros 900 sampl o ffermwyr YEN dros y pedair blynedd ddiwethaf ddatgelu bod 74% o gnydau grawn yn ddiffygiol o ran o leiaf un maetholyn. Mae hyn yn dynodi, er gwaethaf ymdrechion gorau llawer o dyfwr, bod maethiad yn cyfyngu potensial llawn eu cynydau.

Anfonwyd samplau o rawn i gael dadansoddiad maetholion wrth gynaeafu yn 2020 o chwe chae ar safle arddangos Pantyderi. Er mwyn cynyddu cyfanswm y data a hwyluso meincnodi mewn cymhariaeth â chnydau a dyfir ar yr un pryd yn yr ardal, cymrwyd samplau o chwe chae grawn gan bum tyfwr grawn arall yn yr ardal, a elwir yn grŵp Sir Benfro.

Dadansoddwyd y grawn i roi lefelau'r 12 maetholyn hanfodol i gyd. Yna, meincnodwyd y canlyniadau trwy'r adnodd Maeth Grawn YEN sy'n cynnwys y canlyniadau o bob sampl Grawn YEN sy'n cael ei gynaeafu'n genedlaethol.

Dengys y prif ganlyniadau cenedlaethol ar gyfer cynhaeaf 2020:

- Y diffyg sy'n cael ei nodi yn fwyaf cyffredin yw ffosfforws
- Mae potasiwm yn llai diffygiol nag yn y blynyddoedd diwethaf
- Mae manganês yn ddiffygiol yn fwy cyffredin nag mewn blynyddoedd blaenorol

Dangosodd canlyniadau grŵp Sir Benfro:

- Bod y maethiad nitrogen yn gyffredinol yn rhy hael ac yn eithafol weithiau
- Dangosodd un fferm lefelau sylffwr isel ar draws yr holl gaeau a ddadansoddwyd tra'r oedd ffermydd eraill yn foddhaol o ran sylffwr
- Roedd manganês hefyd yn ymddangos yn isel ar y rhan fwyaf o'r ffermydd oedd yn tyfu barlys

Ffesygravel: Cymharu cywirdeb systemau mesur glaswellt

Nod y prosiect yw cymharu cywirdeb dwy system ar gyfer mesur glaswellt; mesurydd plât a delweddau lloeren. Bydd dull torri a phwyso hefyd yn cael ei ddefnyddio bob mis i sicrhau cywirdeb. Byddwn yn rhannu'r caeau ac yn mapio'r isadeiledd o ran hygyrchedd dŵr a mynediad i'r padogau er mwyn rheoli'r borfa ar fferm Ffesygravel.

Bydd glaswellt yn cael ei fesur gan ddefnyddio delweddau lloeren, mesurydd plât a dull torri a phwyso i gymharu cywirdeb. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu gallu delweddau lloeren i gynyddu cynhyrchiant ac ansawdd glaswellt (tDM).

Y nod yw cyflawni o leiaf un cylchdro ychwanegol gan wneud gwell defnydd o'r borfa, gan hefyd sicrhau bod y rownd olaf o bori yn caniatáu digon o laswellt erbyn i'r anifeiliaid gael eu troi allan yn 2022, a'u troi allan yn gynt hyd yn oed.

Cafodd y mesuriadau cyntaf eu casglu gyda mesurydd plât ar 11 Mawrth gyda'r ffermwr, Martin, a Sarah Morgan o Precision Grazing yn cynllunio lletem laswellt ar gyfer y gwanwyn. Dyma fesuriadau'r gorchudd:



Ffigur 1: Delwedd lloeren o fferm Ffesygravel

- Agrinet: 2,140kgDM/ha
- Ruumi: 2,085kgDM/ha
- Gwahaniaeth o 55kgDM/ha

Roedd gwartheg allan yn pori ar 22 Mawrth, yn gynt na'r blynyddoedd diwethaf gan fod Martin yn deall y gorchudd. Rydym ni'n anelu at droi'r gwartheg allan yn gynt yn ystod y tymor nesaf.

Erw Fawr: Cysylltu tymheredd y pridd a'r aer gyda chyfradd twf glaswellt

Mae Erw Fawr, un o safleoedd arddangos Cyswllt Ffermio, wedi gosod synwryddion LoRaWAN (Rhwydwaith Mynediad ArdalEang Pŵer Isel) i gasglu data tymheredd y pridd i'w gymharu gyda chyfraddau twf glaswellt yn ystod tymor pori 2021. Gosodwyd y system ym mis Hydref 2020, ac mae'r synwrydd bychan wedi bod yn anfon data tymheredd y pridd bob 15 munud drwy borth LoRaWAN a osodwyd ar un o'r siediau ciwbicl. Mae'r data hwn yn cael ei ddehongli ar ddangosfwrdd pwrpasol ar ffurf cyfres o graffiau a thafleni data y gellir eu lawrlwytho. Gellir gosod trothwy ar gyfer y data, ac mae modd gosod larwm ar ddyfais symudol i hysbysu'r ffermwr os oes angen gweithredu megis yr amser cywir i wasgaru gwrtait, neu a yw'r pridd mewn cyflwr addas er mwyn gallu gwasgaru tail. Bydd cofnodion glaswellt a data tymheredd y pridd wythnosol yn cael eu cyfateb wrth i'r tymor tyfu barhau.




Ffigur 2. Synwrydd tymheredd deuol wedi'i osod ar bostyn yn un o'r padogau

Mae'r gwaith o fesur glaswellt wedi dechrau ar fferm Erw Fawr gyda'r dyddiau hwy a chynnydd yn nhymeredd y pridd yn arwain twf, yn enwedig yn y padogau a borwyd yn y rownd gyntaf.

Bellach, mae'n bosib dechrau cyfateb y data i edrych ar effaith tymheredd y pridd ar gyfraddau twf glaswellt, yn enwedig ar fferm Erw Fawr. O'r data a gasglwyd gan y synwryddion ar ddechrau'r

prosiect ac ar ddiwedd Chwefror 2021, gellir gweld bod hyd y dydd ac amsugniad ynni'r haul hefyd yn chwarae rhan allweddol o ran twf glaswellt gan mai dim ond 0.3kgDM/ha/dydd (isafswm) a welwyd, er gwaethaf tymheredd pridd digon rhesymol, sef 7.63°C, sydd fel arfer yn cael ei ystyried yn sbardun ar gyfer twf.

Fodd bynnag, llwyddodd tymheredd y pridd i adfer yn dilyn cyfnod oer ar ddechrau Mawrth 2021 i rhwng 9-10°C, sydd wedi galluogi glaswellt i dyfu'n dda ar gyfradd o 35kgDM/ha/dydd. Gan edrych yn ôl ar y data yn y graffiau yn ffigurau 2 a 3, mae'n bosibl nodi'r amser gorau posibl ar gyfer ychwanegu gwrtait trwy driongli twf presennol, tymheredd y pridd a data goleuni. Ar hyn o bryd, nid oes gan Erw Fawr synwrydd LUX LoRaWAN allanol i gwblhau'r gwaith triongli.



Ffigur 3. Twf glaswellt a thymheredd y pridd ar fferm Erw Fawr yn ystod mis Mawrth 2021

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

LLYGREDD AER: LLEIHAU ALLYRIADAU AMONIA O AMAETHYDDIAETH DRWY ADDASU TECHNEGAI AR GYFER STORIO GWRTAIT A'I ROI AR Y TIR

A YDY MEILLION YN GALLU LLEIHAU CARBON: DEFNYDDIO NITROGEN A CHODLYSIAU AR FFERMYDD

DOM, CYFFURIAU A CHLEFYD: Y CYSWLLT RHWNG CHWILOD Y DOM A FFERMIO



CYNHALIWYD

38 GWEMINAR gyda



1,472 O WYLLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

19/01/2021: Gwneud y gorau o feillion coch

Bu Helen Mathieu o gwmni Germinal yn egluro buddion defnyddio meillion coch fel porthiant da byw. Yn y weminar hon, rhannwyd gwybodaeth ynglŷn â sut i sefydlu meillion coch yn llwyddiannus a sut i gynnal cynhyrchiant o fewn cylchdro.

15/02/2021: Planhigion ar gyfer gwenyn

Rhoddodd Lynfa Davies drosolwg o blanhigion yn ystod y tymhorau sy'n bwysig i wenyn mêl. Mae gwenyn mêl angen porthiant trwy gydol y tymor gweithredol er mwyn iddynt allu adeiladu digon o storfa ar gyfer y gaeaf ac i gynhyrchu cnwd o fêl.

MYNYCHODD



59

BUSNES Y WEMINAR HON

MYNYCHODD



8

BUSNES Y WEMINAR HON



Un i Un

Derbyniodd 53 o unigolion gymorth drwy Gategoriâu Tir y GwasanaethCynghori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 130 grŵp gymorth drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cynghori yn ystod y cyfnod hwn.

Grwpiau Trafod

Rheoli llygredd



Cydymffurfiaeth SSAFO/NVZ



Dyluniad storfeydd slyri



Rheoli tail




Caniatâd cynllunio



Dyluniad adeiladau ac arallgyfeirio



Dyluniad adeiladau fferm/adnewyddu



Aeth Keith yn ei flaen i drafod y gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru fel grantiau cyfalaf, yn benodol y Grant Busnes i Ffermydd - Cynllun Gorchuddio lardiau a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) fel opsiynau ar gyfer ariannu'r gwaith o uwchraddio cyfleusterau.

Roedd mwyafrif aelodau'r grŵp wedi archebu lle ar weminar SPG Cyswllt Ffermio i ddysgu mwy am yr hyn y mae'r grant yn ei gynnwys.

Prif neges Keith oedd peidio â chynhyrfu, gan fod mwyafrif y rheoliadau hyn yn bodoli'n flaenorol o dan SSAFO. Bydd newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol gan roi cyfle i ffermydd baratoi.

EIP



22 O BROSIECTAU TIR WEDI'U CYMERADWYO yn gweithio gyda



65 FFERMWWR A CHOEDWIGWR



Sefydlu coed mewn rhedyn trwchus

Mae dau ffermwr yng nghanolbarth Cymru'n archwilio gwahanol ddulliau o drin y tir i baratoi safleoedd i blannu coed mewn ardaloedd sydd wedi'u dominyddu gan redyn. Mae nifer o broblemau wedi cael eu hamlygu gan gynnwys yr agwedd diogelwch o ran gweithio ar lethrau a'r cyfnod byr ar gyfer amodau plannu ffafrïol ar ôl i'r rhedyn farw'n ôl yn ddigonol i wneud peryglon megis cerrig yn amlwg, a chyn i'r tir fynd yn rhy wlyb.

Mae'r prosiect yn edrych ar wahanol ddulliau o glirio rhedyn, megis peiriant Robocut gydag offer trin a thyrchwr bach gydag offer palu. Mae'r ddau beiriant yn fwy addas ar gyfer gweithio ar lethrau gan eu bod yn llai, ond nid ydynt yn addas ar gyfer amodau eithriadol. Mae opsiynau llai technolegol hefyd yn cael eu hystyried gan gynnwys strimio a sathru.

Gallai'r rhywogaethau coed hefyd effeithio ar y broses, ac ar ôl blwyddyn o fonitro, mae gwahaniaethau'n dechrau dod i'r amlwg o ran gallu gwahanol rywogaethau i oroesi yn ystod y cyfnod sefydlu cynnar. Mae eginblanhigion coed bedw a choed crafal wedi gweld colledion o 5% o'i gymharu â 10% ar gyfer pyrwydd Sitka. Ond roedd y colledion ar gyfer derw'n 25%. Bydd monitro parhaus yn asesu p'un a yw hyn o ganlyniad i'r amodau plannu neu ffactorau amgylcheddol eraill.



Ffigwr 4. Y peiriant Robocut sy'n cael ei reoli o bell yn trin y tir yn barod ar gyfer plannu coed



Ffigwr 5. Tyrchwr bach ar waith – un gyda bwced a'r llall gydag offer palut

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

RHEOLI PORI



GWELLA IECHYD PRIDD



ADNABOD COED



RHEOLI CHWYN



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cwrs	Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thraws-lifio	11
Dyfarniad Lefel 2 Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Defnyddio Plaladdwyr gan ddefnyddio Offer (PA2)	6
Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel (PA6)	4
Tryc codi telesgopig ar gyfer tir garw	3
Ansawdd pridd (BASIS)	3



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio